

TAFLEN BENDERFYNIAID AELOD CABINET CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/ SUBJECT:

Newid Cyfansoddiad Cydbwyllgor Ymgynghorol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.

Change the Constitution of the Llŷn Area of Outstanding Natural Beauty Joint Advisory Committee.

AELOD CABINET/ CABINET MEMBER:

Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Rheoleiddio.
Cllr Dafydd Meurig, Regulatory Cabinet Member.

PENDERFYNIAID/ DECISION

Addasu'r cyfansoddiad ar gyfer Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn fel y gall unrhyw aelod o'r Cydbwyllgor weithredu fel Cadeirydd.

Amend the constitution of the Llŷn AONB Joint Advisory Committee so that any member of the Joint Advisory Committee can serve as Chairperson.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAID/ REASONS FOR THE DECISION

Mae'r mater hwn wedi ei drafod mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ac roedd Aelodau yn awyddus i newid y Cyfansoddiad.

Bydd y newid hwn yn caniatáu i unrhyw aelod o'r Cydbwyllgor gael cyfreithiol i fod yn Gadeirydd.

Mae cyngor cyfreithiol wedi ei dderbyn yn glân â'r broses o ddiwygio'r cyfansoddiad a'i fod yn bosib yn gyfreithiol i addasu'r Cyfansoddiad yn y modd yma.

Ni fuasai yna unrhyw newidiadau eraill i Gyfansoddiad y Cydbwyllgor heblaw am y newid yma. Gweler Atodiad 1 sydd yn cynnwys y Cyfansoddiad a'r newid a fwriedir wedi ei lachar liwio'n felyn ym mharagraff 3.5.

The matter has been discussed at a meeting of the Joint Advisory Committee and Members were keen to change the Constitution.(see Appendix 1 for the Constitution.

The change will allow any member of the Joint Advisory Committee to have the opportunity to be the Chairperson.

Legal advice has been received regarding the process for amending the constitution, confirming that it is possible in legal terms to change the Constitution by this method.

There would be no other changes to the constitution of the Joint Advisory Committee except for this specific change. The Constitution is attached as Appendix 1 with the proposed change highlighted yellow in paragraph.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Dynodwyd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn yn 1957 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. AHNE Llŷn oedd yr 3ydd ardal i'w dynodi drwy Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Sefydlwyd Cydbwyllgor Ymgynghorol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn 1997 yn dilyn cyfarfod rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac amrywiol sefydliadau eraill.

Mabwysiadwyd Cyfansoddiad ar gyfer y Cydbwyllgor gyda manylion am Aelodaeth, Cyfarfodydd, Gwasanaethau a Chadeiryddiaeth. Mae Aelodaeth y Cydbwyllgor yn cynnwys 5 Cynghorydd Sirol a chynrychiolwyr o'r ddwy Undeb Amaethyddol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfeillion Llŷn, Cynghorau Cymuned, Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforwm Mynediad, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, y Sector Dwristiaeth a Chymdeithas Physgotwyr Llŷn.

O ran Cadeirydd mae'r Cyfansoddiad cyfredol ym mharagraff 3.5 yn nodi: "**Bydd y Gadeiryddiaeth yn cylchdroi rhwng aelodau Cyngor Gwynedd yn flynyddol.**" Bwriedir newid hyn i : "**Bydd y Cadeirydd yn cael ei ethol yn flynyddol o blith aelodau'r Cydbwyllgor**", fel y dangosir yn Atodiad 1.

Mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2013 trafodwyd cadeiryddiaeth y Cydbwyllgor a phenderfynwyd gwneud cais i addasu'r cyfansoddiad fel y gallai unrhyw aelod fod yn Gadeirydd. Barnwyd bryd hynny y byddai angen cyflwyno'r mater i sylw'r Cyngor llawn.

Fodd bynnag, erbyn hyn mae cyngor cyfreithiol yn nodi mai mater i'r Cabinet yw penderfynu ar gyfansoddiad y Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE ac felly y gall y deilydd portffolio benderfynu ar y mater neu gyfeirio'r mater i sylw'r Cabinet.

Gan na fydd y newid yma'n golygu unrhyw newid arall i Gyfansoddiad y Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE, ni ystyrir y bydd y newid yma'n effeithio ar waith y Cydbwyllgor fydd yn parhau i weithredu ei rôl a'i ddyletswyddau'n unol a'r Cyfansoddiad yn Atodiad 1.

The Llŷn Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) was designated in 1957 under the National Parks and Access to the Countryside Act 1949. Llŷn was the 3rd AONB to be designated within Wales, England and Northern Ireland.

The Llŷn Area of Outstanding Natural Beauty Joint Advisory Committee (JAC) was established in 1997 after a meeting between Gwynedd Council, the Countryside Council for Wales and various other bodies.

A Constitution for the Joint Advisory Committee was adopted which included details regarding Membership, Meetings, Services and Chairmanship. The Membership of the JAC includes 5 County Councillors and representatives of both Agricultural Unions, the National Trust, Cyfeillion Llŷn, Community Councils, Natural Resources Wales, Access Forum, CPRW and Llŷn Fishermen's Society.

As regards the Chairperson, the constitution in paragraph 3.5 states at present: "The Chair shall rotate between the Gwynedd Council representatives on an annual basis." It is proposed to change this to: "The Chairperson shall be elected annually from the members of the Joint Advisory Committee" as shown in Appendix 1.

At a meeting in November 2013 the matter of the JAC Chair was discussed and it was decided to make an application to change the constitution so that any member of the Committee could act as Chair. At the time it was foreseen that this would be a matter for the full Council.

However, the legal advice now is that changing the constitution of the AONB Joint Advisory Committee is a matter for the Cabinet to decide and therefore the portfolio holder can decide on the matter, or bring the matter to the attention of the Cabinet.

As this change will not result in any other changes to the Constitution of the AONB Joint Advisory Committee, it is not considered that this change will affect the work of the AONB JAC who will continue to implement their role and duties in accordance with the Constitution in Appendix 1.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/ VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/ *Chief Executive*:-

"Dim i'w ychwanegu"/ Nothing to add

2. Swyddog Monitro/ *Monitoring Officer*:-

"Dim sylwadau o ochr priodoldeb/ Nothing to add regarding propriety"

3. Prif Swyddog Cyllid/*Chief Finance Officer*:-

"Dim i'w ychwanegu o safbwyt priodoldeb ariannol. / Nothing to add from a financial propriety perspective."

BARN YR AELOD LLEOL/ *VIEW OF LOCAL MEMBER*

Ddim yn fater lleol. Not a local matter.

LLOFNOD /*SIGNED*

DYDDIAD/ *DATE*



14.04.15

ATODIAD 1 / APPENDIX 1

ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN (AHNE)

Cydbwyllgor Ymgynghorol

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Dynodwyd yr AHNE yn ffurfiol ym Mai 1957. Prif bwrpas y dynodiad cenedlaethol hwn yw gwarchod harddwch naturiol.
- 1.2. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn annog sefydlu Pwyllgorau Ymgynghorol mewn AHNE. Dylai aelodaeth gynnwys awdurdodau lleol yr ardal, grwpiau mwynderau a buddiannau defnydd tir. Ei swyddogaeth yw cyngori'r awdurdodau lleol a chyrff eraill ar faterion cefn gwlad a rheoli amgylcheddol cyffredinol ledled yr Ardal, a bod yn fforwm i drafod materion a godir a barn a fynegir.
- 1.3 Mewn cyfarfod o gynrychiolwyr Cyngor Gwynedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a grwpiau o fewn y cymunedau lleol a gynhalwyd ar yr 20fed o Fawrth 1997 penderfynwyd y dylid sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer AHNE Llyn.

2. Siarter Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

- 2.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu Siarter Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru a Lloegr. Nod y siarter yw hybu, diogelu a rheoli y 41 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol fel ardaloedd gyda golygfeydd o'r radd flaenaf. Trwy arwyddo'r Siarter mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd cenedlaethol y dreftadaeth naturiol a diwylliannol a'r golygfeydd sy'n cael eu diogelu wrth i ardal gael ei dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

- 2.2 Fel Cyngor sy'n ymwneud ag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- Cefnogi'r cysyniad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a chydnbod bod y dynodiad yn dod â manteision economaidd a chymdeithasol allweddol yn ei sgil.
- Cydweithio i hybu defnydd cynaliadwy o dir, a sicrhau bod y tirluniau, cynefinoedd a bywyd gwylt yn yr ardaloedd arbennig hyn yn cael eu cynnal a'u gwella.
- Sicrhau bod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn berthnasol i hunaniaeth ac anghenion cymunedau lleol.

- Codi ymwybyddiaeth o'r dynodiad ar lefel leol a chenedlaethol
- Chwilio am ddulliau cyllido newydd a thymor hir, i ddiogelu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu mwynhau

3. Y Pwyllgor Ymgynghorol

3.1. Cylch Gorchwyl

- 3.1.1. Cyngori'r awdurdod lleol a chyrff eraill ar faterion cadwraeth tirwedd a rheoli cefn gwlad ac amgylchedd sydd yn effeithio ar yr AHNE.
- 3.1.2 Rhoi cyngor ar baratoi a gweithredu cynllun rheoli ar gyfer yr AHNE.
- 3.1.3 Rhoi cyngor ar Gynlluniau datblygu, strategaethau a rhaglenni gwaith yr awdurdod lleol a chyrff eraill i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r AHNE.
- 3.1.4 Cyngori ar ddatblygu a gweithredu Gwasanaeth Rheoli AHNE Llŷn.
- 3.1.5 Bod yn fforwm ar gyfer trafod materion eraill, gan gynnwys drafftiau o ddeddfwriaeth a newidiadau yn y rheoliadau cenedlaethol ac Ewropeaidd perthnasol.
- 3.1.6 Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio a gyfeirir i'r Pwyllgor Ymgynghorol gan yr awdurdod cynllunio lleol.
- 3.1.7 Cyd-gysylltu gwaith o rheoli cefn gwlad y Cyngor a chyrff eraill o fewn ac wrth ymylon Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn
- 3.1.8 Monitro a gwerthuso cynnydd o fewn rhaglen weithredol y Cynllun Rheolaeth yn flynyddol ac adolygu'r cynllun ei hun yn rheolaidd.
- 3.1.9 Hyrwyddo gweithgareddau eraill sydd yn angenrheidiol i gyrraedd amcanion dynodi yr Ardal yn AHNE.
- 3.1.10 Rhoi llais cryf i faterion yn ymwneud a gwarchod a rheoli AHNE ar lefel rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

3.2 Aelodaeth

Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol fydd

	Nifer aelodau
Cyngor Gwynedd	5
Cynghorau Cymuned yn yr AHNE	10
Cynyrchiolwyr Undebau Amaethyddol	2
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	1
Asiantaeth yr Amgylchedd	1
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	1
Cymdeithas Pysgotwyr Llyn	1
Cynyrhiolydd Sector Twristiaeth	1
Cynyrchiolydd Sector Fusnes	1
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	1
Cyfeillion Llyn	1
Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Gwledig	1

Adolygir cynyrchiolaeth ar y Pwyllgor yn rheolaidd.

3.3 Tymor Aelodaeth

Aelodau Cyngor Gwynedd i gael eu cylchdroi yn dilyn etholiadau lleol.

Cynnal aelodeth o gyrrff eraill ond adolygu ar ol etholiadau lleol

3.4. Hawliau Pleidleisio

Bydd gan pob Aelod o'r Pwyllgor hawl i un bleidlais. Caniateir i gynyrcioliwyr mudiadau a chynghorau cymuned i anfon dirprwy a bydd gan y dirprwy bleidlais os trefnir hynny ymlaen llaw gyda Cadeirydd y Pwyllgor.

3.5 Cadeiryddiaeth

Bydd Cadeirydd yn cael ei ethol yn flynyddol o blith aelodau'r Cydbwyllgor AHNE.

3.6. Cyngor ar Faterion Penodol

Bydd gan y Pwyllgor Ymgynghorol hawl i wahodd unigolion neu gynyrcioliwyr i roi cyngor ar faterion penodol i'r Pwyllgor. Ni fydd ganddynt yr hawl i bleidleisio.

3.7 Amlder Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd ddwy waith y flwyddyn gyda dewis o gynnnull Cyfarfodydd Arbennig yn ôl y galw.

Bydd gan gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol yr hawl i alw cyfarfod o ls-grwp Materion Cynllunio i drafod a chynnig sylwadau ffurfiol ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol ar geisiadau cynllunio sydd yn cael effaith uniongyrchol ar ddynodiad yr AHNE ac a dynnir i'w sylw fel mater brys gan y Swyddog AHNE neu Rheolwr Cynllunio Ardal Dwyfor.

- 3.8. Gwasanaethu
- Darperir cefnogaeth weinyddol gan Cyngor Gwynedd a nodir Swyddog o Cyngor Gwynedd fel "Swyddog AHNE".
- 3.9 Gweithgor Swyddogion
- Dylid sefydlu Gweithgor Swyddogion i wasanaethu'r Pwyllgor Ymgynghorol. Ffurfir hwn o swyddogion yr Awdurdod Lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Gwledig, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a bydd uwch-swyddog o Gyngor Gwynedd yn gadeirydd. Bydd ganddynt hawl i gyfethol aelodau llawn amser neu dros dro i'r weithgor yn ôl y galw.
4. Trefniadau Ariannol
- 4.1. Bydd Cyngor Gwynedd yn darparu cyllideb weithredol flynyddol ar gyfer y Pwyllgor i'w alluogi i weithredu cynlluniau er cyrraedd amcanion dynodi yr AHNE. Caiff y gyllideb ei rheoli ar ran y Pwyllgor gan y Swyddog AHNE. Bydd Swyddog yr AHNE a'r Pwyllgor yn archwilio pob ffynhonnell cymhorthdal arall ar gyfer hyrwyddo rhaglen weithredol y cyd-bwyllgor.
- 4.2. Bydd y Pwyllgor yn cynghori Cyngor Gwynedd a Cyngor Cefn Gwlad Cymru ynglyn a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i reoli'r AHNE
- 4.3. Y sefydliadau neu'r awdurdodau sydd yn eu cyflogi neu maent yn eu cynrychioli fydd yn talu'r treuliau personol a ddaw i ran aelodau a swyddogion sy'n eistedd ar y Pwyllgor Ymgynghorol a'r gweithgor.

LLŶN AREA OF OUTSTANDING NATURAL BEAUTY (AONB)

Joint Advisory Committee

1. Preamble

- 1.1. The AONB was formally designated in May, 1957. The primary aim of this national designation is to conserve natural beauty.
- 1.2. The Countryside Council for Wales encourages the establishment of Advisory Committees in A.O.N.B's. Membership should include constituent local authorities, amenity groups and land-user interests. Its role is to advise local authorities and other bodies on general countryside and environmental management issues throughout the Area and to provide a forum for matters raised and views exchanged.
- 1.3 In a meeting of the representatives of Gwynedd Council, the Countryside Council for Wales and local interest groups held on 20th March, 1997 it was decided that an Advisory Committee should be established for the Llŷn AONB.

2. Charter for Areas of Outstanding Natural Beauty

- 2.1 Gwynedd Council has adopted the Charter for Areas of Outstanding Natural Beauty in England and Wales. It aims to promote the protection and management of the 41 AONBs as areas of the highest visual quality. By signing the charter Gwynedd Council recognises the national importance of the natural, scenic and cultural heritage protected by the AONB designation.
- 2.2 As an authority concerned with the designation Gwynedd Council undertakes to:
 - Support the concept of Areas of Outstanding Natural Beauty recognising that the designation brings vital social and economic benefits
 - Work in partnership to promote sustainable land use and secures the conservation and enhancement of landscapes, habitats and wildlife in these special areas.
 - Ensure that Areas of Outstanding Natural Beauty is relevant to local needs and identity.
 - Increase awareness of the designation at a national and local level
 - Seek new, long-term, funding mechanisms to safeguard Area of Outstanding Natural Beauty for present and future generations to enjoy.

3. The Advisory Committee
 - 3.1. Terms of Reference
 - 3.1.1 To advise the local authority and other bodies on landscape conservation and countryside and environmental management issues affecting the AONB.
 - 3.1.2 To advise on the preparation and implementation of a management plan for the AONB.
 - 3.1.3 To advise on Development Plans, strategies and work programmes prepared by the local authority and other bodies insofar as they relate to the AONB.
 - 3.1.4 To advise on the development and operation of the Llŷn AONB Management Service.
 - 3.1.5 To provide a forum for discussion of other matters, including the draft legislation and changes in relevant National and EEC regulations.
 - 3.1.6 Submit comments on planning applications drawn to the Advisory committee's attention by the local planning authority.
 - 3.1.7 Co-ordinate the countryside management work of the local authority and other bodies within and close to the Llŷn AONB.
 - 3.1.8 To monitor and evaluate the progress within the Management Plans action programme annually and to review the plan itself regularly.
 - 3.1.9 Promoting other action that is necessary to further the objectives of the AONB designation.
 - 3.1.10 Provide a strong voice for issues relating to the protection and management of AONBs at a regional, national and international level.

3.2 Membership

Membership of the Advisory Committee will be as follows:-

	No. of Members
Gwynedd Council	5
Community Councils within AONB	10
Farmers Unions Representatives	2
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	1
Asiantaeth yr Amgylchedd	1
Council for Protection of Rural Wales	1
Llyn Fishermen's Group	1
Tourist Industry Representative	1
Business Community Representative	1
Countryside Council for Wales	1
Cyfeillion Llŷn	1
Farming and Rural Conservation Agency	1

Committee membership will be reviewed regularly

3.3. Term of Membership

Gwynedd Council members to be alternated after local elections
Review membership of other bodies/organisations after local elections.

3.4. Voting Rights

Each Member shall be entitled to one vote. Members from external organisations are permitted to send a representative who will be given the right to vote with prior arrangement with the Committee chairman.

3.5. Chairmanship

The Chairperson shall be elected annually from the members of the AONB Joint Advisory Committee.

3.6. Specialist Advice

The advisory Committee shall have the right to invite individuals or representatives from other organisations to advise on specialist subjects. These representatives will not have the right to vote.

3.7. Frequency of Meetings

Meetings shall be held twice yearly with the option of convening Special Meetings when required.

The chairman of the Advisory Committee can convene a meeting of a planning sub-group to discuss and submit formal comments on behalf of the Advisory Committee on planning applications which may have a direct effect on the AONB designation and

which are drawn to his attention as an urgent matter by the AONB Officer or the Dwyfor Area Planning manager.

3.8. Servicing

Administrative support shall be provided by Gwynedd Council and a Gwynedd Council Officer shall be identified as the 'AONB Officer'.

3.9 Officers Working Party

An Officers Working Party shall be established to service the Advisory Committee. This shall be formed from officers of the local authority, the Environment Agency, the Countryside Council for Wales, Farming and Rural conservation Agency and the North Wales Naturalist Trust and it will be chaired by a senior officer of Gwynedd Council. It shall have the right to co-opt permanent or temporary members to the working party as required.

4 Financial Arrangements

- 4.1 Gwynedd Council will allocate an annual working budget for the Advisory Committee to enable it to further the aims of the AONB. The budget will be controlled on behalf of the Advisory Committee by the AONB officer. The Advisory Committee and the AONB officer will explore the possibility of additional funding from other sources.
- 4.2. The Advisory Committee will advise Gwynedd Council and the Countryside Council for Wales on the level of resources required to manage the AONB.
- 4.3. The personal expenses incurred by members and officers sitting on the Advisory Committee and Officers Working Party shall be paid by their respective organisation or authority.